**PWYLLGOR ARCHWILIO 12-07-11**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John P. Roberts (Cadeirydd);

**Y Cynghorwyr:** E.T. Dogan, Huw Edwards, Tom Ellis, Keith Greenly-Jones, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Aeron M. Jones, Charles W. Jones, R.L. Jones, Ioan Thomas, Gwilym O. Williams a Sian Gwenllian (Arweinydd Portffolio Cyllid)

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Ffion M. Evans (Rheolwr Cyllid Adnoddau a Chorfforaethol), Helen Williams (Prif Gyfrifydd Cyfalaf a Rheolaeth), Alan Hughes (Pen Swyddog Hamdden), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr John G. Jones, Llinos Merks, Dewi Owen, Gethin Williams

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd John P. Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2011/12.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd Gethin G. Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2011/12.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir –

Y Cynghorwyr Margaret Griffith a Ioan Thomas yn yr eitem yn ymwneud â Cist Gwynedd gan eu bod yn aelodau o Banel Cist Gwynedd.

Y Cynghorydd Margaret Griffith yn yr eitem yn ymwneud ag Unedau Iaith gan ei bod yn cynrychioli'r Cyngor ar gyrff llywodraethol Ysgol Llangybi ac Ysgol Eifiionydd, Porthmadog, sef dwy ysgol sydd ag unedau iaith ar eu tiroedd.

Y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn yr eitem yn ymwneud ag Unedau Iaith gan ei fod yn aelod o gorff llywodraethol Ysgol Eifionydd, Porthmadog sydd ag uned iaith ar ei dir.

'Roedd yr aelodau o'r farn nad oeddynt yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod a chymerwyd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitemau perthnasol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2011, fel rhai cywir.

## 5. DATGANIAD CYFRIFON 2010/11

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid. Ymysg gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r angen i'r Cyngor newid ei drefniadau o "drefniadau amgen" sef Bwrdd y Cyngor, i "drefniadau gweithrediaeth" sef Cabinet, a bwriedir i'r trefniadau newydd ddod yn weithredol yn dilyn yr etholiad ym Mai 2012. Mae'r Mesur hefyd yn newid pwyslais a ffurf y Pwyllgor Archwilio. O ran ffurf, mae'r Mesur yn mynnu y bydd o leiaf un aelod lleyg ar y pwyllgor ac o ran pwyslais bydd y pwyllgor yn craffu materion ariannol a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Prif Bwyllgor Craffu. Trafodwyd y mater gyda'r Prif Weithredwr, Arweinydd y Cyngor, yr Arweinydd Portffolio Cyllid y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r bwriad, gyda chytundeb y pwyllgor hwn, yw i dreialu ychydig ar y drefn, drwy gyflwyno adroddiadau ariannol i'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn sef, adroddiadau cyllideb chwarterol ac adroddiadau ar fuddsoddiadau. Nododd hefyd bod trefn wedi bod yn ei le i gyflwyno adroddiadau ar gronfeydd i sylw gweithgor o'r Prif Bwyllgor Craffu ond gan y bydd y rôl o graffu ar faterion ariannol gan y Pwyllgor Archwilio o hyn ymlaen, bwriedir sefydlu gweithgor o'r pwyllgor hwn yn ystod y gaeaf i'w craffu. Croesawodd yr aelodau y dull hwn o weithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cyflwynwyd y Datganiad o'r Cyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2010/11 sy'n rhoddi manylion am weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011. Nododd y Pennaeth Cyllid bod y Cyngor hwn ymysg y tri Cyngor cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi'r datganiad ar ei wefan ar 1 Gorffennaf 2011 ac 'roedd hynny'n galonogol iawn.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid nad yw'r cyfrifon drafft wedi eu harchwilio hyd yn hyn ac efallai y bydd angen rhai newidiadau iddynt cyn y cyflwynir fersiwn terfynol i'r pwyllgor hwn ar 29 Medi 2011. Gorfodwyd ffurf a chynnwys sylfaenol y datganiadau dan Reoliad 7 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn ogystal â rheoliadau a safonau eraill. Mae'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2010/11 wedi eu llunio ar sail nifer o ofynion newydd sef Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh), sy'n llywio Côd Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol. 'Roedd Côd Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol hefyd yn cynnwys gofynion i drosi cyfrifon 2009/10 oedd wedi eu paratoi yn unol â'r hen Ddatganiad Ymarfer Argymelledig, i'r côd yn seiliedig ar SAARh sydd wedi dod yn weithredol ers 1 Ebrill 2010. Gan bod y rheoliadau yn mynnu datganiadau ar ffurf safonol, mae cymariaethau gyda chyfrifon cyrff eraill wedi'u hwyluso, ond mae'r ddogfen bellach yn hynod dechnegol.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod adroddiad ynglyn â'r cyfrifon wedi ei gyflwyno i Fwrdd y Cyngor ar 14 Mehefin 2011. 'Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpas mewnol/rheoli tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy priodol ar gyfer pwrpasau allanol/llywodraethu.

Nododd y Pennaeth Cyllid mai'r Pwyllgor Archwilio yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" ar ran y Cyngor a cyn 2009/10 bu'r pwyllgor yn cymeradwyo'r datganiad drafft o'r cyfrifon yn amodol ar archwiliad. Fodd bynnag, mae addasiadau 2010 i'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn

rhoddi'r cyfrifoldeb am gymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon drafft cyn 30 Mehefin 2011 i'r Swyddog Cyllid Statudol (y Pennaeth Cyllid yng Nghyngor Gwynedd). Erbyn hyn, nid oes rhaid i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn drafft o'r datganiad ond fe'i cyflwynir i'r pwyllgor hwn er gwybodaeth ac ystyrir hynny'n ymarfer da.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid ymhellach y byddai'r Datganiad o Gyfrifon ynghyd â phob datganiad ariannol perthnasol arall, yn destun archwiliad blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn dilyn ardystiad ganddo ef ac ystyriaeth gan y pwyllgor Yn ogystal, bydd y cyfrifon ar gael i'w harolygu gan y cyhoedd am gyfnod o 20 diwrnod.

Rhoddodd yr Uwch Reolwr Cyllid eglurhad manwl am y gwahanol bolisiau cyfrifo, y gwahanol gyfrifon, datganiadau a'r nodiadau perthnasol. Codwyd nifer o gwestiynau gan yr aelodau ar y cyfrifon ac ymatebodd y swyddogion iddynt.

Atgoffwyd aelodau y cyflwynir cyfrifon y Gronfa Bensiwn i holl gyflogwyr y gronfa mewn Cyfarfod Blynyddol ar 27 Gorffennaf 2011.

Mewn perthynas â chronfa'r diweddar Mrs Florence Merthyr Guest Morgan, cyfeiriodd aelod at y ffaith bod y sefyllfa'n siomedig iawn gan nodi bod yr arian mewn llaw yn cynyddu ac y dylai'r arian gael ei ddefnyddio er budd trigolion rhannau o Lŷn at bwrpasau penodol. 'Roedd o'r farn y dylid cymryd camau penodol i roddi gwybodaeth i'r cyhoedd am fodolaeth y gronfa hon er ceisio annog pobl i gyflwyno ceisiadau am arian. Nododd bod angen edrych ar strwythur y gronfa. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid i'r aelod godi'r mater y llynedd ac iddo gysylltu â'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol gan ofyn iddi ymateb i'r aelod. Addawodd y Pennaeth Cyllid y byddai'n trafod y mater ymhellach gyda'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol.

Diolchwyd i'r holl swyddogion perthnasol am y gwaith ar y cyfrifon.

**PENDERFYNWYD**
**a) Derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) 2009/10.**
**b) Gofyn i'r swyddogion perthnasol gyflwyno adroddiad i Bwyllgor Ardal Dwyfor yn rhoddi manylion am delerau/strwythur Cronfa'r Diweddar Mrs Florence Merthyr Guest Morgan.**

**6. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2010/11**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn cyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2010/11 er cymeradwyaeth y pwyllgor.

Eglurodd bod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol Cymru gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol blynyddol yn unol â rheoliad 4(2)(a). Nododd bod Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) yn datgan bod rhaid cynhyrchu'r datganiad o gyfrifon yn unol ag ymarfer gorau, sef y Datganiad o Ymarfer Argymhelledig (SORP) a gyhoeddir gan CIPFA yn flynyddol ac sy'n gosod allan y trefniadau priodol ar gyfer cynhyrchu'r datganiadau ariannol. Mae'r SORP ar gyfer 2011 yn nodi

bod rhaid i awdurdodau lleol Cymru gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol erbyn hyn. Wrth baratoi'r datganiad, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ymgorffori'r gofynion statudol fel a amlinellir yn y rheoliadau. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, dilynwyd y canllawiau a gyhoeddwyd gan gyrff proffesiynol megis CIPFA a SOLACE er mwyn sicrhau bod y datganiad yn cynnwys yr holl elfennau a fyddai wedi eu cynnwys yn y Datganiad Rheolaeth Fewnol yn y gorffennol. Ar ôl i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol dderbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio, caiff ei arwyddo gan y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor.

Rhoddodd eglurhad manwl am yr hyn a ddisgwylir o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Pwysleisiodd ei bod yn hanfodol bod tystiolaeth yn ei le er mwyn cefnogi'r cynnwys cyn cyhoeddi'r ddogfen. I'r perwyl hwn, defnyddiwyd basdata er mwyn casglu tystiolaeth i gefnogi cynnwys y Datganiad Llywodraethu. Defnyddiwyd gwybodaeth o sawl ffynhonnell er mwyn paratoi'r datganiad gan gynnwys cyfansoddiad y Cyngor, adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, Cynllun Tair Blynedd y Cyngor a'r Strategaeth Ariannol.

Erbyn hyn, nododd y swyddog bod yr Ombwdsmon wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ac allan o 39 achos a gaewyd yn ystod 2010/11, pedwar o'r cwynion yn unig a gadarnhawyd ganddo.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn ymgorffori Datganiad Rheolaeth Fewnol Cyngor Gwynedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2010/11 a'r cyfnod ers dyddiad y fantolen.**

## 7. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

### Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Mai 2011

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Chwefror a 31 Mai 2011. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 24 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 3 adroddiadau eraill (memoranda a.y.)
- 10 archwiliad dilyniant.
- 5 archwiliad ymatebol

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. 'Roedd hyn yn cynnwys 4 o adroddiadau drafft sydd wedi eu rhyddhau a 35 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

### Taliadau am adfer/trwsio cerbydau

Gofynnodd aelod am gadarnhad os yw'r cytundeb i nôl y cerbydau wedi ei dendro. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg nad yw'r taliadau yma yn sylweddol ac nad yw cyfanswm y gwariant yn cyfarfod â'r

trothwy ar gyfer tendro am y gwaith. Fodd bynnag, os teimlir bod angen cytundeb fawr am gyfnod penodol, byddai'n argymell hynny i'r Uned Fflyd.

**Unedau Iaith**

Cyfeiriodd aelod at gymal yn yr adroddiad sef "*gwelwyd trwy brofion archwilio bod yr unedau iaith yn ariannu gwariant ar nwyddau a thrafnidiaeth disgyblion i'r unedau o'r côd canolog yma*" Nododd iddi gael gwybodaeth gan Bennaeth Ysgol Llangybi bod yr ysgol yn parhau i ariannu cyfran o ddefnydd yr uned iaith yn yr ysgol. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod y nwyddau a ddefnyddir gan yr uned iaith yn unig wedi eu talu gan yr uned ac mae yna gôd ar wahan ar ei gyfer. Nododd bod y gwaith a wneir gan Archwilio Mewnol yn seiliedig ar y risg i'r Cyngor ac nid oedd y risg yn cyfiawnhau'r defnydd o adnoddau prin Archwilio Mewnol er mwyn ymchwilio i ddyraniad mewnol mân wariant ar rai eitemau wedi'u rhannu rhwng sefydliadau mewnol y Cyngor, megis sebon a papur toiled. Ar y cyfan fe ymdrinir â risgiau arwyddocaol a bod y prif eitemau o wariant yn cael sylw. Eglurwyd y sefyllfa eisoes i bennaeth yr ysgol a oedd wedi ei holi yn ystod yr archwiliad.

**Grant Datgloi Potensial Ysgolion Anghenion Arbennig Gwynedd**

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Adran Addysg yn eu llongyfarch ar dderbyn categori barn "A"**

**Ysgol Dyffryn Ogwen**

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at Bennaeth Ysgol Dyffryn Ogwen yn ei longyfarch ar dderbyn categori barn "A".**

**Ysgol Uwchradd Tywyn**

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed yr archwiliad, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y penodwyd Pennaeth a Swyddog Gweinyddol i'w swyddi presennol ym Medi 2009 ac nad oeddynt wedi derbyn y wybodaeth angenrheidiol yr adeg hynny, ond disgwylir y bydd y sefyllfa'n gwella o hyn ymlaen.

**Rheolaeth Ffonau Symudol**

Nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg i'r archwiliad hwn dderbyn categori barn "CH" a thynnodd sylw at yr argymhelliad yn yr adroddiad i geisio gwella'r sefyllfa. 'Roedd y mater hwn wedi codi oherwydd nad oedd neb yn fodlon cymryd cyfrifoldeb am reolaeth. Adroddwyd bod rheolaeth tros reolaeth ffonau symudol wedi symud o'r Uned Technoleg Gwybodaeth i'r Uned Gefnogol o fewn yr Adran Adnoddau Dynol ond bod trafodaethau ynglyn â chymryd cyfrifoldeb tros reolaeth yn parhau. Barn yr archwiliad oedd y dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr a chynhwysol o'r trefniadau mewn perthynas â ffonau symudol a bod canlyniad yr adolygiad a'r penderfyniad ar y ffordd ymlaen yn cael ei adrodd i'r pwyllgor hwn ar 17 Tachwedd 2011 os yn bosibl.

**Gwirio Dangosyddion Perfformiad**

Nododd aelod bod y Prif Bwyllgor Craffu wedi gofyn am i sylwadau gael eu rhoddi hefyd dan y dangosyddion "gwyrdd" i weld os ydynt yn "wyrdd" ai

peidio. Cydnabu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod hwn yn gam pwysig ymlaen.

**Trefniadau Rheoli Prosiect Galluogi**

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Adran Darparu a Hamdden yn eu llongyfarch ar dderbyn categori barn "A"**

**Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at Bennaeth yr Adran Tai a Gwasanaetrhau Cymdeithasol yn ei llongyfarch ar dderbyn categori barn "A".**

**Uned Cludiant Cyhoeddus**

Nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod yr archwiliad hwn wedi derbyn categori barn "C" a bod ychydig o newidiadau'n mynd rhagddo ar hyn o bryd o fewn yr Uned Cludiant Cyhoeddus, ac awgrymodd y dylai'r pwyllgor dderbyn diweddariad ar y sefyllfa gan yr uned yn ystod y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD gwahodd Pennaeth yr Adran Rheoleiddio i'r Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011.**

**Llogi Ystafelloedd Cyfarfod Allanol**

Nododd aelod y cynhaliwyd nifer o bwyllgorau'r Cyngor yn ddiweddar mewn ystafelloedd tu allan i'r Cyngor er bod ystafelloedd o fewn Swyddfeydd y Cyngor ar gael i'w defnyddio. Gofynnodd am wybodaeth am y gost o logi'r ystafelloedd hyn yn ogystal a'r gost o ddarparu bwffe. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid mai prif ddarganfyddiadau'r archwiliad yw bod y gwariant o gynnal cyfarfodydd tu allan i'r Cyngor wedi lleihau tros y dair blynedd ddiwethaf. Atgoffwyd rheolwyr a swyddogion i geisio cynnal cyfarfodydd yn fewnol os yn bosibl.

**Cytundeb Maes Parcio Canolfan Menai Bangor**

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed y gost i'r Cyngor yn sgîl methiant Cwmni Cathco, hysbysodd y Pennaeth Cyllid y cafwyd colled rhent oddeutu £70,000 y flwyddyn ar y tir, bod y sefyllfa'n anfoddhaol, ac mae angen cymryd camau pendant i ymdrin â'r mater. Awgrymodd aelod y dylid gwahodd swyddogion perthnasol o'r Adran Rheoleiddio i ddod gerbron y pwyllgor yn ystod y misoedd nesaf i egluro'r datblygiadau.

**PENDERFYNWYD gwahodd Pennaeth yr Adran Rheoleiddio i'r Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011.**

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror i 31 Mai 2011 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

## 8. ADRODDIAD AR ARCHWILIADAU MEWNOL CANOLFANNAU HAMDDEN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Darparu a Hamdden gan y Pen Swyddog Hamdden ar fwriadau'r adran i ymateb i archwiliadau mewnol mewn perthynas â Chanolfannau Hamdden y Cyngor er sicrhau y derbynnir categori barn safon derbyniol o "B" neu well a fyddai'n dangos cydymffurfiaeth gyda rheoliadau a gweithdrefnau'r Cyngor.

Nododd fel rhan o raglen archwilio'r Adran Archwilio Mewnol yn ystod 2010, archwiliwyd pump o'r canolfannau hamdden a dyfarnwyd bod tair ohonynt yn disgyn i gategori barn "C" o ran cydymffurfiaeth ag unai rheoliadau ariannol neu weithdrefnau gweithredu'r Cyngor.

Rhoddodd fanylion am brif argymhellion yr adroddiadau a dderbyniodd categori barn "C" a'r argymhellion gweithredu er mwyn lliniaru'r risgiau. Gofynnodd i'r aelodau dderbyn yr adroddiad ac i gymeradwyo'r argymhellion gweithredu.

'Roedd aelod o'r farn y dylai Rheolwyr Canolfannau osod y safonau a sicrhau bod y staff hefyd y cyflawni'r safonau hynny. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog bod y system rheoli integredig yn digwydd ac i'r rheolwyr gael cyflwyniad ac hyfforddiant ar gynnwys y llyfryn ond nid pawb sy'n ei ddilyn i fyny wedyn. Nododd bod pedwar swyddog o'r Adran Darparu a Hamdden yn mynd o amgylch y canolfannau'n fisol i wneud archwiliadau.

Nododd aelod bod y perfformiad yn siomedig a bod ymarfer da yn bwysig ac y dylai hynny gael ei gario allan ymhob canolfan hamdden. Mewn ymateb, cytunodd y swyddog ac fe hysbysodd bod y llyfryn yn crynhoi pob un gweithdrefn mae angen i'r staff ei gyflawni.

Gofynnodd aelod os y rhoddir rhybudd i staff y canolfannau sydd ddim yn gweithredu. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog iddo y llynedd ymweld â phob rheolwr canolfan gan ofyn iddynt am eu barn am y gwasanaeth gan gynnwys y gefnogaeth a dderbyniwyd gan eu rheolwr llinell. Y farn gyffredinol oedd eu bod angen mwy o gefnogaeth gan ei rheolwr (oedd yn rheoli canolfannau'r sir gyfan). Fel canlyniad rhanwyd cyfrifoldebau sirol rhwng dau swyddog a olygai gwell cefnogaeth (hyn yn weithredol o Medi 2010 a oedd ar ôl dyddiad y mwyafrif o adroddiadau archwilio). Gan y byddai'r gefnogaeth yn ei le drwy'r swyddogion monitro ac hefyd drwy gefnogaeth Rheolwyr Cyfleusterau, byddai'n briodol i ddechrau camau disgyblaeth yn erbyn rheolwyr os nad ydynt yn gwneud yn sicr bod eu canolfannau'n cydymffurfio â rheoliadau a gweithdrefnau'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, cymeradwyo'r argymhellion gweithredu a chyflwyno diweddariad i'r pwyllgor ymhen 6 mis.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2010/11

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2010/11. Eglurodd bod dyletswydd arno fel Pennaeth Archwilio Mewnol y Cyngor i ddarparu sicrwydd i'r awdurdod ar y system gyflawn o reolaeth fewnol yr awdurdod. Ychwanegodd nad oes modd iddo gadarnhau sicrwydd llwyr wrth leisio barn, ac mai'r mwyaf y gallai'r gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor yw sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol. Wrth asesu'r lefel sicrwydd i'w roddi, 'roedd

wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2010/11 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod hwn a chyfnodau blaenorol. 'Roedd y swyddog yn fodlon bod gan Gyngor Gwynedd **"fframwaith gadarn o reolaeth fewnol er mwyn cynnig sicrwydd rhesymol parthed cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan bod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau bod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol".**

Er mwyn rhoddi barn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth mewnol, hysbysodd y swyddog iddo ystyried y canlynol –
a) Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor yn unigol.
b) Lle canfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, neu derbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio.
c) Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad blynyddol.

Mewn perthynas â'r gwaith archwilio, hysbysodd y cynhwyswyd 106 darn o waith yng nghynllun archwilio addasiedig terfynol 2010/11. Cwblhawyd 91 o'r aseiniadau hyn, sy'n cynrychioli 85.85% o'r cynllun. Gwnaed penderfyniad yn ystod 2010/11 bod rhaid cymryd camau unwaith ac am byth i ddod i ben yr ymarfer lle byddai gwaith archwilio un flwyddyn ddim yn cael ei gwblhau tan rhai misoedd i mewn i'r flwyddyn ddilynol. Yn unol ag argymhelliad SAC, adolygwyd y mater, pryd y cytunwyd i newid y dangosydd hwn ar gyfer 2010/11 i **"Canran archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd unai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau".** Nododd bod y targed ar gyfer 2010/11 yn 85%, gan gynyddu i 95% yn 2011/12.

Tynnodd y swyddog sylw at y modd y caiff adroddiadau archwiliad mewnol eu categoreiddio. O'r adroddiadau perthnasol i gynllun 2010/11, derbyniodd 84% farn "A" neu "B" sydd ychydig yn is na'r ffigur cyfatebol o 87% yn 2009/10.

Nododd y swyddog y rhyddhawyd memorandwm terfynol ar gyfer 18 o archwiliadau dilyniant yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2010 i 31 Mawrth 2011 a derbyniodd pob un o'r archwiliadau hyn farn "derbyniol" neu "rhagorol" ar wahân i un archwiliad a dderbyniodd farn "anfoddhaol" a dau arall lle na roddwyd categori barn oherwydd newidiadau mewn trefniadau. 'Roedd hyn yn awgrymu bod trefniadau cadarn o fewn yr awdurdod i weithredu argymhellion archwilio er mwyn cryfhau rheolaethau mewnol a rheoli risg.

Cyfeiriodd y swyddog at y dadansoddiad o'r defnydd o adnoddau Archwilio Mewnol yn ystod 2010/2011. Nododd y gwelwyd cynnydd pellach yng nghyfanswm nifer y dyddiau a dreuliwyd ar waith cynhyrchiol i'r Cyngor o 1,770 diwrnod rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010 i 1,897 diwrnod am yr un cyfnod yn 2010/11. Bu lleihad yn nifer y dyddiau y bu'n rhaid eu defnyddio'n cwblhau gwaith y flwyddyn flaenorol, o 360 diwrnod yn 2009/10 i 131 diwrnod yn 2010/11. Oherwydd mesurau gwelliant penodol a roddwyd yn eu lle, disgwylir i'r ffigur hwn leihau ymhellach yn 2011/12.

Cyflwynwyd canlyniadau dangosyddion perfformiad 2010/11 gan nodi mai un dangosydd yn unig oedd heb gyrraedd y targed.

O ystyried cydymffurfiaeth â'r côd ymarfer, rhoddwyd diweddariad o weithrediad ar argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru o'u hasesiad blynyddol 2010.

Nododd y swyddog i'r adran fod yn llwyddiannus yn ennill cytundeb archwilio mewnol gyda Chymdeithas Tai Eryri am y flwyddyn hyd at 30 Mehefin 2012. Ni ddylai gael effaith gweladwy ar allu Archwilio Mewnol i ymgymryd â gwaith y Cyngor. Rhagwelai mai oddeutu 50 o ddyddiau archwilio fydd y ddarpariaeth i Gymdeithas Tai Eryri.

**PENDERFYNWYD**
**a) Derbyn yr adroddiad fel adroddiad blynyddol ffurfiol yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn unol â gofynion y Côd Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig.**
**b) Llongyfarch Adain Archwilio Mewnol y Cyngor ar ennill cytundeb i archwilio Cymdeithas Tai Eryri.**

**10. ADOLYGIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU O WASANAETH ARCHWILIO MEWNOL CYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol bod y Côd Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Safon Archwilio Rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried os yw trefniadau rheolaeth ariannol fewnol y Cyngor yn ddigonol. Gan bod archwilio mewnol yn elfen allweddol o'r system rheolaeth fewnol, cwblheir asesiad blynyddol o'i berfformiad.

Yn dilyn cwblhau'r asesiad, 'roedd yr Archwiliwr Allanol o'r farn bod gan y Cyngor wasanaeth archwilio mewnol effeithiol ac mae'n cydymffurfio ar y cyfan â safonau Côd Ymarfer Archwilio Mewnol CIPFA.

Nodwyd eto eleni bod gan Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol rai cyfrifoldebau gweithredol sy'n dechnegol anghyson gyda'r safon annibyniaeth, ond, wedi trafodaeth gyda'r Pennaeth Cyllid, bod yr Archwiliwr Allanol yn deall nad yw'r Cyngor am newid y strwythur.

Er mwyn ceisio gwella perfformiad y gwasanaeth, argymhellodd yr Archwiliwr Allanol o Swyddfa Archwilio Cymru y dylid datblygu protocol ffurfiol rhwng Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**11. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2011/12**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2011/12.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 1 Gorffennaf 2011 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 56 |
| Crewyd papurau gwaith | 5 |

| | |
|---|---|
| Gwaith maes ar y gweill | 23 |
| Cwblhawyd gwaith maes | 3 |
| Adroddiad Drafft | 2 |
| Adroddiad Terfynol | 16 |
| **Cyfanswm** | **105** |

Hysbysodd mai targed perfformiad 2011/12 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun addasiadau unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2012. Nododd bod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol ar ddiwedd chwarter 1 yn 15.28% ac allan o'r 105 archwiliad unigol, 'roedd 16 wedi eu rhyddhau'n derfynol erbyn diwedd y chwarter. Mae'r perfformiad felly'n is na'r proffil a osodwyd. Fodd bynnag, mae gwaith maes wedi dechrau ar gyfer 42% o'r archwiliadau, sy'n meithrin hyder y bydd y targed wedi ei gyrraedd erbyn diwedd y flwyddyn a bod posibilrwydd cryf y byddai'r cynnydd yn unol â'r proffil erbyn diwedd yr ail chwarter.

Mewn perthynas ag addasiadau i'r cynllun, nododd y swyddog nad oes addasiadau i'r cynllun i adrodd arnynt i'r cyfarfod hwn.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2011/12.**

**12 . STRATEGAETH ARCHWILIO ARIANNOL O GYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol y paratowyd y Strategaeth Archwilio Ariannol i fodloni gofynion y safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Nododd ei bod yn ofynnol i'r Archwilydd Penodedig archwilio ac ardystio cyfrifon y Cyngor, gan fodloni ei hun bod y cyfrifon –
a) Yn rhoddi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor.
b) Yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol.
c) Wedi'u paratoi yn unol ag arferion priodol.
At hynny, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig –
i) Fodloni ei hun bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.
ii) Ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Nodwyd, wrth gynllunio eu gwaith, mae'n rhaid i archwilwyr nodi risgiau sylweddol sy'n ymwneud â chywirdeb a dibynadwyedd y datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiadau arnynt. Roddwyd manylion am y risgiau a'r camau arfaethedig i fynd i'r afael â hwy. Nododd bod gan y Cyngor strategaeth ariannol cadarn.

Tynnodd sylw at y ffi archwilio ariannol o £171,516 ynghyd â TAW ar gyfer 2010/11 ac fe'i codir mewn rhandaliadau cyfwerth rhwng Tachwedd 2010 a Hydref 2011. Nododd bod y ffi hwn yn is na ffi y llynedd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**13. STRATEGAETH ARCHWILIO ARIANNOL 2010/11 O GRONFA BENSIWN GWYNEDD**

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol mai'r Cyngor yw'r awdurdod gweinyddu ar gyfer y Gronfa Bensiwn. Nododd ei bod yn ofynnol i'r

Archwilydd Penodedig ystyried ac ardystio cyfrifon y Gronfa Bensiwn gan fodloni ei hun bod y cyfrifon –
a) Yn rhoddi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa.
b) Yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol.
c) Wedi'u paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol.
At hynny, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig –
i) Fodloni ei hun bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
ii) Ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Er mwyn cyhoeddi'r adroddiad archwilio ar gyfrifon y Gronfa Bensiwn, mae'n ofynnol sicrhau y nodir pob risg weithredol ac ariannol sylweddol a allai effeithio ar yr archwiliad a'r camau arfaethedig i fynd i'r afael â hwy.

Tynnodd sylw at y ffi archwilio ariannol o £25,095 ynghyd â TAW ar gyfer 2010/11 ac fe'i codir mewn rhandaliadau cyfwerth rhwng Tachwedd 2010 a Hydref 2011.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.45pm